


Lliwiau'r hydref eleni



gan Gwyn Williams (chwith: Plas Tan y Bwlch), Gerallt Pennant (de uchod: Penygwyd 15 Hydref 2012, a de isod Llyn Dinas 14 Hydfr 2012 "yn blygeiniol")

Pigion o'r Papurau Bro

Glaw Stiniog!

Nid oes dwywaith amdani hi ein bod ni wedi cael ein gweddill a'n gwala o law 'Stiniog yn ystod y misoedd diwethaf 'ma. Efallai bod gennych ryw led-gof inni gael tywydd teg ym mis Mawrth eleni, ond prin fod angen imi eich atgoffa mai ychydig iawn o dywydd heulog a welsom ers hynny .

Beth bynnag, erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos o'r wasg bydd mis Medi wedi dod ac wedi mynd, ac er ein bod yn rhyw hanner disgwyl cael 'sgrympia' Gŵyl Grog' yn ystod y mis hwn, y mae hi wedi bod yn ddigon sgrympio drwyddo. Y newid yn hinsawdd y byd, efallai. Gyda llaw, cawodydd trymion sydyn yn parhau am ychydig yw 'sgrympiau' a gawn ogyrch Gŵyl y Grog, sef Medi 25.

Ond beth am y dywediad 'glaw Stiniog? O beth gasglaf y mae'r dywediad yn bodoli ers 1886, o leiaf, yn y ffurf ganlynol a welir ym mhapur newydd Baner ac Amserau Cymru am Dachwedd y flwyddyn hon:

Agoriad Clwb Torïaidd- Prydnawn ddydd Gwener diweddaf, cydymgynullodd blaenoriaid y blaidd Dorïaidd yn sir Feirionnydd, i ganol gwlaw mawr Ffestiniog, i agor eu Clwb Torïaidd sydd wedi ei sefydlu yn y Gors New Market Square

Erbyn y flwyddyn ganlynol, ceir y sylwadau hyn yn yr un papur :

Gwlaw Ffestiniog – llawer o sôn a siarad sydd am wlaw Ffestiniog, ac nad oes un man tebyg iddo am dywydd gwlyb. Dywedai Mr. E.P. Jones, U.H. y dydd o'r blaen ein bod wedi cael yn ystod y flwyddyn ddiweddaf 196 o ddyddiau teg, a 169 yn wlyb; ac felly, nad oedd ond 27 o wahaniaeth rhyngddynt a bod yn gyfartal.

Fel y gwelwch roedd E.P. Jones, a fu'n preswyllo yng Nghefn y Maes, Manod ac wedyn ym Mhlas Blaenddol, Llan Ffestiniog yn cadw manylion am y tywydd am flynyddoedd. Byddaf yn rhyfeddu wrth glywed yr arbenigwyr tywydd yn cyfeirio at y flwyddyn 1914 fel yr un pan ddechreuwyd cofnodi'r tywydd ym Mhrydain. Wrth gwrs, cyfeirio at

gofnodion y gorsafoedd meteoroleg a sefydlwyd gan y weinyddiaeth y maent a'r rhai sy'n rhoi darlun o dywydd Prydain gyfan, ac nid o un man arbennig.

Pa fodd bynnag, y mae cofnodion lleol yn llawer mwy diddorol yn fy marn i. Dyma un cyfeiriad arall at law Ffestiniog o bapur Baner ac Amserau Cymru, Hydref 10, 1896:-

Gwlaw ! Gwlaw! -Nid oes yr un dydd ers mis, o leiaf, nad ydym wedi cael ein mwydo gan wlaw, a hwnnw yn wlaw mawr, fel gwlaw Ffestiniog. Nid yw yn ddiogel myned allan heb rhyw ddarpariaeth i ochel y gwlaw. Cwynir yn dost gan y mân ffermwyr sydd ag ychydig ŷd ar y mynyddoedd, ei fod wedi pydru ac yn ddiwerth i ddyd ac anifail a'u gweddi yw, O ! na byddai'n haf o hyd.

Yn ddiaw, dyna yw gweddi llawer ohonom ninnau hefyd, a phwy a wŷr, efallai y cawn ni dywydd teg yn ystod yr wythnosau nesaf a chyn i'r gaeaf ddod ar ein gwarthaf. Gyda llaw, yn 'Y Genedl Gymreig' am y flwyddyn 1898 cyfeirir at ein glaw fel 'Glaw 'Stiniog. Tybed a ydych chi wedi gweld cyfeiriad ato cyn y dyddiadau uchod?

Steffan ab Owain (llun: Alun Williams)



Nostoc



Tybed oes rhywun yna all ddeud beth yw'r sylwedd sydd ar wyneb y pridd yn fy ngardd. Mae'n gorchuddio tua dwylath o un o'r borderi sydd ychydig yn wlyb. Nid oes gwraidd iddo ac mae ei ansawdd rhywbeth yn debyg i rwber a'i liw yn wyrdd/frown. Diolch.

Jane Owen, Llangefni

Looks like Nostoc to me which is an alga. It's found on places like drives and pathways which are continually wet, waterlogged, or soggy and sunny. As you can imagine it's quite common this year!! Bit slippery when wet and moist and not very attractive wet or dry. The best way to get rid of it if it's a nuisance is probably by improving the drainage, I don't like using chemicals.

Debbie Evans

Nostoc yw hwn... math o cyanobacteria (blue-green alga). Fe gaiff hwn yr enw pwde'r sêr gan rai, am ei fod yn ymddangos yn sydyn fel petai wedi disgyn o'r nen. Yr enw Saesneg arno yw *Mares Eggs* - maent yn edrych fel swigod crwn cyn iddynt fyrstio, fel sydd wedi digwydd yn y ddelwedd. Mae'r anifail/planhigyn yma yn gyffredin mewn pyllau dŵr, ac yn ymddangos ar wyneb y ddaear lle mae'n wlyb.. yn aml yn tyfu ar y palmant, lle mae dŵr glaw yn llifo.

Sion Roberts

Stribedi Cerrig

Dyma effaith rhewi a dadmar a'r y Carneddau - stribedi cerrig



Llun: Alan Pritchard

Storm fawr Chwefror 28, 1937



"Ar lechres hanes, enwir - ei heira
A'i mawrwynt trwy'r frodir;
Ar ei thaith dros fôr a thir,
Ei hafog nis anghofir."

Ioan Brothen i storm fawr 28 Chwefror 1937

Ewch i'r Tywyddiadur os am fwy am y storm hon

Sil y Bodiau

[Adroddiad Llys Caernarfon, ?ddiwedd y 19G]

Having the young of Salmon in Possession Evan Davies was summoned... Defendant pleaded not guilty. Mr. Powell [yr erlyniad] addressed the Court in Welsh, expressing, his regret at having to proceed against the defendant, He then called Richard O'Neill, watcher on the Seiont river, who deposed that he saw defendant on Gallt y Sil fishing, and asked him to show the fish. He refused, and said witness had no authority to demand it. Witness then walked round him, [hanes cythrwfl rhwng y ddau yn dilyn] ...O'Neil then let him go, and said, "I have seen three sheels in your basket." Superintendent Davies said defendant admitted to him that he had "sil y bodiau" in the basket, and these were salmon fry. Defendant denied that he had made such an admission and even if he had, "sil y bodiau" were not salmon fry. Superintendent Davies was then sworn, and deposed that defendant came to the police station to complain of O'Neil; and he then said he had no "sils" but that he had "sil y bodiau." The Mayor wished to be informed how it was known that the kind of fish referred to were salmon fry. Superintendent Davies said the police, had on one occasion sent up to the Home office, to know whether they were or not, and the reply they received was that they were undoubtedly the young of salmon. O'Neil again denied that he had taken hold of defendant by the throat. There was no one on the river he had more trouble with than defendant, and last year he had detected him taking young salmon, but let him off on his promising never to be guilty again. Defendant indignantly rebutted the charge. Mr. Powell said they did not wish to be hard with Evan Davies; they only wished him to keep the law. Fined 5s. and costs, but the fine will not be enforced unless defendant repeats the offence.

Beth yw sheels? Gallt y Sil, ardal wrth y Seiont ar gyrion Caernarfon - "sil" sylwch!

Pysgod Iesu Grist



fodiau dynol ar eu hochrau.

Mae gennyf gof o hen ŵr o'r Blaenau yn sôn am 'bysgod Iesu Grist' wrthym un tro a ninnau yn methu a deall pam y gelwid nhw wrth yr enw hwn, a dyma beth ddywedodd - os edrychwch chi ar eu cyrff y mae ôl bodiau'r Iesu arnynt, sef marciau tebyg i

Straeon y golofn hon: Steffan ab Owain

Ydfrain Treiorwerth



Meddai Duff Hart-Davis yn Fauna Britannica: "*in earlier times, farmers used to shoot young birds as they came off their nests on 12 May, to make traditional rook pie - a dish still occasionally eaten in rural districts*". A dyma ddau gofnod o

Sir Fôn o ddyddiadur teulu'r Vincent, Treborth, Bangor: 19 Mai 1885: "*Hugh went to Treiorwerth for rook shooting.*"

A'r diwrnod wedyn:

20 Mai 1885: "*...Hugh came back from Treiorwerth with lots of young rooks.*"

Oedd y cywion ydfrain yn hwyr y flwyddyn honno?

Dyddiadur teulu Vincent, Treborth, Bangor; yn Wood, DS & Field, V. (Gwasg Prifysgol Cymru, Bangor 2002)

Mae ydfrain yn dal i nythu yn Nhrefnorwerth

Llun: Eifion Griffiths (fe'i tynnwyd yng Ngigrin, 16 Chwefror 2010)

Byd bach y Sionis

Ym mis Mai 1990 yn ystod taith gerdded ar arfordir Llydaw, digwyddodd peth hollol anhygoel i mi ar y daith wrth agosáu at Morlaix. Mi gerddais i mewn i 'Tabac' mewn pentre' bach o'r enw St.Michel-en-Greve, ac ar ôl gofyn am ddioid yn Ffrangeg dyma'r perchennog yn dechrau siarad fel trêrn yn yr iaith. Dyma roi stop arno a dweud taw o Pays de Galles roeddwn yn dod ohoni. Mewn tipyn dyma fe'n dweud bod yr hen ddyn oedd yn eistedd yn y cornel, Roget, wedi bod yng Nghymru yn gwerthu winws. Dyma fi yn mynd draw, ac er taw dim ond bach iawn o Ffrangeg oedd gennyf, mi lwyddwyd y ddau ohonom ddeall ein gilydd trwy Llydaweg a Chymraeg gan ei fod wedi dysgu tipyn yn y blynyddoedd oedd yn dod draw rhwng 1961 a 1975. Ond y peth mwya anhygoel oedd ei fod wedi bod yn sefyll mewn stablau tu cefn i dafarn o'r enw'r 'Coopers' yn Betws, Rhydaman, ac yr oeddwn i wedi symud i fyw drws nesa' i'r Coopers yn 1968 wrth weithio yn y Frigâd Dan. Rwy'n cofio gweld y dynion Sioni Winws yno, roedd pedwar ohonynt yn ôl Roget. Ar ôl dod dros y sioc, dyma fe'n dechrau gofyn i mi am bobol oedd wedi galw arnynt yn yr ardal, ac yr oeddwn yn nabod llawer ohonynt. Cefais hanes yr holl ardal oedd y pedwar ohonynt yn mynd i werthu'r winws. Erbyn hyn roedd y cwrw wedi dechrau llifo, a does dim llawer o gof gennyf am y pum milltir arall oedd gennyf i fynd cyn cyrraedd y gwrsyll oeddwn yn sefyll yno, ac yn y bore oedd yn syndod fod y babell ar ei thraed o hyd!!!

Bryan Jones

25 mlynedd yn ôl

Ardal Llambed 20 Hydref 1987: Rwyf yn cofio storm fawr 1987 yn iawn. Tra'n gweithio fel milfeddyg yn Llambed cefais alwad i fynd y dynnu llo. Gweld bod angen gwneud llawdriniaeth Caesarean a dechrau ar y gwaith. Roedd yn chwythu yn enbyd ac wrth ddechwelyd i'r car i ôl rhagor o gyfarpar, gweld hanner o shiden zinc yn cael ei chwythu congl dros gongl, yn dod yn union amdanaf ond yn ffodus rhyw ddwy lath cyn fy nghyrraedd fe drodd i ffwrdd a mynd heibio imi a'r car! Dychwelyd i Lamed i ginio ac yn y prynhawn mynd yn ôl i'r un cyfeiriad. Roeddwn wedi clywed bod nifer o goed wedi cwmpo ar y ffordd fawr am Aberaeron, felly dyma fynd hyd yr hewlydd llai ond gyda bwyell gennyf. Cyrraedd topiau Maestir, nifer o goed bychain ar draws y ffordd a sawl person yr ochor arall iddynt. Hyfryd oedd gweld y wen ar eu hwynebau pan welsant fi yn nesu gyda'r fwyell yn fy llaw a chliriwyd y ffordd. Ieuan Roberts

Ymholiad

Beth yw'r enw Saesneg ar y ddau flodyn, hosan Siwsan a dor-y-fagl. Y mae 'na gyfeirio atynt yn llyfr Syr O.M. Edwards, Clych Atgof, felly rwyf yn cymryd mai blodau sydd yn tyfu ar yr Aran ydynt. Rwyf wedi chwilio mewn sawl llyfr arbenigol, ac ar-lein, ond heb fod wedi medru cael hyd iddynt....'dôr y fagl' sy'n ymddangos yn 'Clych Atgof ac Ysgrifau Eraill' (yn y darn a elwir 'Fy Nhad')


Sian Cleaver (ebost)

Ffisig ysgall ac opiwm Aberdaron

Hawdd iawn yw anghofio cymaint oedd ein cyndeidiau yn dibynnu ar feddyginiaethau llysieuol tan yn gymharol ddiweddar.


13th. *I continue taking the Elixir thrice this day, in the morn- fasting, at Noon, and 5 in the Evening, from 30 to 40 drops at a time, & drink a pint and a half of Carduus* [hwn yw'r gair Lladin am ysgall] *Whey hot every night going to bed.*

Dyddiadur William Bulkeley, Brynndu, Llanfechell, Môn (gyda chaniatad Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor)




Ond efallai'r syndod mwyaf oedd gweld y cyfeiriad at *laudenum* (opiad neu gyffur cysgu yn seiliedig ar y pabi ac yn cael ei ddefnyddio llawer yn Oes Fictoria) ac *obaduldo* (beth bynnag oedd hwnnw!) yng nghefn dyddiadur William Jones, Moelfre, Aberdaron ar gyfer y flwyddyn 1897. Arferai'r beirdd gymryd *laudenum* i

hybu'r awen - beirdd fel Samuel Taylor Coleridge. Cafodd Coleridge ei styrbio ynghanol cyfansoddi ei gerdd enwog Kubhla Kan dan ddylanwad y cyffur hwn ac erbyn iddo ddechwelyd at y gwaith roedd yr awen wedi diflannu. Bu hen regi mae'n siwr!



Sylwodd Brenda Jones, sydd wedi cymryd diddordeb mawr yn nyddiaduron William Jones, bod ei ysgrifen wedi mynd yn flêr o Chwefror ymlaen. Dyma enghreifftiau o'i ysgrifen arferol (uchd) ac ar ôl i'r brain hel eu traed ar y papur (de)!



Dweud dim - dim ond dweud!

Dim am bensiwn

"Pan oedden ni'n blant fuasen ni ddim yn rhoi'n llaw yn nyth y benfelen am bensiwn rhag ofn fod yno neidr. 'Roedd y benfelen, medden' nhw, yn was i'r neidr."

Codwyd (gyda chywiriadau) o "O Wythnos i Wythnos" John Roberts Williams, Cyhoeddiadau Mei, 1987, tud. 90. trwy law Bruce Griffiths




Meddai Twm Elias: byddai plant yn ofalus iawn wrth fynd i chwilio am y nyth am fod yna goel bod y marciau bach nadreddog ar yr wyau yn rhybudd bod nadroedd go iawn yn amdiffyn y nyth. Doedd hynny ddim yn bell o'r gwir oherwydd mi fyddai'r cynefin - yn enwedig y cloddiau pridd o gwmpas y cae eithin - yn addas iawn i wiberod! Mae 'gwas y neidr' yn enw arall ar y bras melyn, sy'n cadarnhau'r goel.



Tynnwyd y llun gan Twm ger Ty'n Lliadiart, yn Islaw'r dref, Dolgellau (SH 67 15), ar y 13eg o Orffennaf, 2011. Paul Williams cyflenwodd llun yr wy.

Beddi yn y Gaiman



Mae'r cerrig beddi hyn yn ddfyfr, nid yn unig oherwydd y dail eiddew (dwi'm yn siŵr a oes eiddew fel hyn yn y Wladfa), ond oherwydd ardal y cartref, sef Drofa Dulog [onid Drofa Ddulog ddylai hwn fod? Gol:]. Addasiad y Cymry o'r gair 'armadillo' ydy'r gair 'dulog', felly mae'r ardal yma y tu allan i'r Gaiman wedi ei fedyddio'n 'drofa'r armadillo'. [Oes yna eiddew neu iorwg yn y wladfa? Gol.]



Chwith: Carreg fedd ym mynwent Y Gaiman, Patagonia, efo'r dywediad am 'Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn, Megis blodeuyn y maes felly blodeua efe'



De: Bedd Gutyn Ebrill a anwyd yn y Cross Foxes, Gwanas, Dolgellau - cerfiadau o flodau ar ei garreg fedd gyda manylyn o un o'r blodau ar fedd Gutyn Ebrill
Lluniau a sylwadau: Haf Meredydd

Palmwydd Y Fach

Mae yna lun o balmwydden (*Cordyline australis*) ym Mwletin 55 (Medi 2012) a sonnir ei bod ar Ben y Gogarth, Llandudno. Dydi hynny ddim yn hollol gywir! Gerddi'r Fach (Happy Valley) sydd ar ochr ogledd dwyreiniol y Gogarth, nepell o'r pier, yw'r lleoliad. Dyma ychydig o hanes datblygu'r gerddi. 'R oedd yna hen chwarel galchfaen ar ran o'r tir ble mae'r Fach ac ym 1887 penderfynodd Arglwydd Mostyn gyflwyno'r rhan yma o Landudno i'r dref fel anrheg i ddathlu Jiwbil Aur y Frenhines Fictoria. Aed ati i drin hen dir y chwarel a'i ddatblygu fel gerddi, dau gwrs golff bychan, gêm glas lawr pytio, theatr awyr agored (a gaeodd ym 1985) a llawer o lawntiau. Cynhaliwyd y seremoni gyflwyno agoriadol yn ystod mis Awst 1890 gan y Trydydd Barwn Mostyn a daeth tyrfa fawr ynghyd i'r dathliadau. I nodi'r achlysur cyflwynodd mam Arglwydd Mostyn, yr Arglwyddes Augusta Mostyn, ffowntan ddŵr gyda cholofn hardd a cherflun o Fictoria sy'n parhau ar y safle hyd heddiw. Yn ei arait, nododd Arglwydd Mostyn y datblygiadau rhyfeddol a fu dros yr ugain mlynedd oedd newydd fynd heibio — adeiladu'r pier, Rhodfa Marine, a'r promenâd. Henry Pochin, y gŵr a greodd Erddi Bodnant yn ddiweddarach, oedd yn gyfrifol am gynllunio gerddi Y Fach a'i gerddi creigiog. Honnir bod yno ar un adeg dros fil o wahanol fathau o blanhigion — yn flodau alpaidd, llwyni a phlanhigion y graig (yn ogystal â phalmwydd!).

Gareth Pritchard

Lluwchwyt



Dyma gyfeiriad at y defnydd swyddogol cyntaf o 'blizzard' ym Mhrydain: 27 Chwefror i 1 Mawrth: *severe snowstorm-blizzard conditions. Short cyclonic northerly spell, heavy snowfall in Scotland, north England and Wales, northerly winds (the term blizzard officially used for the first time by the UK Meteorological Office)*

Kington, J. (2010) *Climate and Weather Cyfres New Naturalist* (Harper Collins, gyda chaniatad)

...ond dyma gyfeiriad lled-swyddogol llawer ynghynt Prydain Ionawr 1881: *In January 1881 there was a cold snap of 21 days... which caused much suffering... It was a veritable British example of a blizzard [sy'n awgrymu mai dyma pryd y benthycwyd y gair o'r Unol Daliaethau] ...caused by the in-rush of polar air to fill up a cyclonic depression low...*

Franklen Evans 1890: *The Meteorology of 1890* (Cardiff Naturalists Society)

Llun: Gill Brown Ionawr 2010

O Ddyddiadur D, Edward Evans Parsele, St Edrens, Gog. Penfo.

5 Ionawr 1859: Heddyw oedd dydd Nadolig (Hen) - ond am fod y gwellt wedi gorffen, gorfu i ni ohirio dywrnod.

12 Ionawr 1859: Hen Galan. Fel arfer cymerasom wyle heddyw - pasiodd fel arferol - y Dablen yn Rhedeg gan wneuthur ei heffaith ar yr isel ysbryd.

Mae'n amlwg ei fod yn nodi'r ddwy ŵyl ond mae'r Hen Galan oedd yr un bwysig. Yn ddi-ddorol mae trigolion Cwm Gwaun yn dal i ddathlu'r Hen Galan.

John Lloyd Jones (Pelcomb)

Mae John yn un o'r tîm sydd yn trawsgrifio dyddiaduron Edward Evans o'r llawysgrif wreiddiol i'w gwneud y fwy hygyrch yn Llên Natur. Os hoffech ymuno â'r tîm cysylltwch trwy wefan Llên Natur.

Ffyngau o'r Blaenau



Glywsoch chi am frechdan bren, gogyrogo a gw-gw gws erioed? Enwau ar gaws llyffant ydy'r ddau gyntaf a mochyn coed ydi'r trydydd. Enwau ardal y Blaenau mae'n debyg yw'r rhain, y ffyngau o bosib yn golygu ysgwydd y fedwen llun: Alun Williams

Mae sawl defnydd i'r ysgwydd hon: miniogi rasel gyda saim a thywod man, arddangos pryfed a chadw tan ynghyn.